# PAPURAU BUSNES

## Cwestiynau Ysgrifenedig i'w hateb ar 07/12/00

## R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

## W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

**(Dynodir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru'r holl brosiectau Buddsoddi Mewnol a dderbyniodd Gymorth Rhanbarthol Dewisol o 1983/84 hyd heddiw, gan nodi:

i. enw'r cwmni (os yn bosibl)
ii. swm y Cymorth Rhanbarthol Dewisol
iii. lleoliad
iv. y swyddi newydd a grewyd
v. nifer y swyddi a ddiogelwyd. (WAQ8555)

Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Beth yw cost Prosiect Ymchwil Adnoddau a Chyfyngiadau Tywod a Graean Môr Hafren. (WAQ8556)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Faint o adroddiadau a gyhoeddwyd o Astudiaeth Tywod a Graean Môr Hafren (nid oes dim ar gael yn y llyfrgell bellach). (WAQ8557)

Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** A wnaiff gadarnhau bod trefniadau mewn lle ar gyfer profion GNVQ drwy gyfrwng y Gymraeg eleni. (WAQ8558) **W**

**Dafydd Wigley (Caernarfon);** Pa drafodaethau sydd wedi cymeryd lle rhyngddi hi, ACCAC a Bwrdd yr Iaith yngln ag anawsterau yn ymwneud â phrofion GNVQ drwy gyfrwng y Gymraeg. (WAQ8559) **W**